

## Cyllideb Ynni Clyfar GB ar gyfer 2015

Yn unol â gofynion y trwyddedau y cafodd ei greu oddi tanynt, mae Ynni Clyfar GB yn falch o gyhoeddi ei gyllideb ar gyfer 2015.

Mae holl weithgareddau Ynni Clyfar GB wedi'u symbylu gan ein hamcanion, sef:

- Adeiladu hyder defnyddwyr mewn Systemau Mesuryddion Clyfar sy'n cael eu gosod gan gyflenwyr nwy a thrydan;
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r defnydd o systemau Mesuryddion Clyfar (a'r wybodaeth a gesglir trwyddynt);
- Cynyddu parodrwydd defnyddwyr ynni i ddefnyddio Systemau Mesuryddion Clyfar i newid eu hymddygiad er mwyn iddynt ostwng eu defnydd o ynni; a
- Chynorthwyo defnyddwyr ar incwm isel neu ar fesuryddion rhagdalau, neu ddefnyddwyr sydd efallai'n profi rhwystrau ychwanegol wrth fedru gwireddu buddion Systemau Mesuryddion Clyfar oherwydd eu hamgylchiadau neu nodweddion penodol, i wireddu buddion Systemau Mesuryddion Clyfar ac ar yr un pryd parhau i gynnal lefel ddigonol o gynhesrwydd a diwallu eu hanghenion eraill o ran ynni.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol sy'n cyflawni gwerth am arian ar bob adeg hefyd.

Yn ystod 2015 byddwn yn parhau i gynyddu ein gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr ymhellach. Mae bron i filiwn o fesuryddion clyfar eisoes wedi'u gosod mewn aelwydydd a microfusnesau ar draws y wlad, gyda mwy o fesuryddion i'w gosod y flwyddyn nesaf ac yna cynnydd sylweddol yn y rhaglen genedlaethol o osod mesuryddion clyfar yn 2016 a'r tu hwnt. Fel rhan o'n hymagwedd at werth am arian, mae Bwrdd Ynni Clyfar GB yn ymrwymedig hefyd i oruchwyliaeth effeithiol dros y gyllideb yn 2015, ac yn benodol mae wedi ymrwymo i dracio unrhyw newidiadau mewn rhagfynegiadau o osodiadau mesuryddion clyfar ar draws cyflenwyr yn agos, ac felly unrhyw angen o ganlyniad i hynny am newid lefelau gweithgarwch a gwariant Ynni Clyfar GB.

## Crynodeb o gyllideb 2015

Ymgyrchoedd addysgu ac ennyn diddordeb y cyhoedd trwy sianeli lluosog	£11,357,546
Ymchwil	£432,272
Gweithgareddau digidol	£1,224,084
Gwaith partneriaeth (gan gynnwys grwpiau ac elusennau lleol)	£5,600,952
Digwyddiadau lleol	£300,000
Cyfathrebu â budd-ddeiliaid (gan gynnwys digwyddiadau)	£650,000
Gweithgareddau'r cyfryngau	£1,132,840
<b>Costau cyfalaf (heb gynnwys swm wrth gefn)</b>	<b>£20,697,694</b>
Adeiladau (Llundain, Caeredin, Caerdydd)	£582,000
Costau staff	£2,822,846
Teithio a lwfans ymgynnal	£36,000
Cyfrifiaduron a thechnoleg gwybodaeth	£125,000
Archwilio, cyllid, yswiriant, bancio ac ymgynghori	£92,720
Dibrisio	£40,000
Hyfforddi a datblygu	£74,117
Cyngor cyfreithiol	£20,000
Cyfieithu	£50,000
<b>Costau gweithredu sefydlog (heb gynnwys swm wrth gefn)</b>	<b>£3,842,683</b>
Swm wrth gefn	£680,931
<b>Cyfanswm Cyllideb 2015</b>	<b>£25,221,308</b>